

AMGUEDDFA CYMRU

# DIWRNOD GOLCH BETI BWT

Dyma Beti Bwt.

Dydd Llun yw hi heddiw. Mae Beti Bwt yn casáu dydd Llun Dydd Llun yw'r diwrnod golchi.



Dewch i weld sut mae Beti Bwt yn golchi ei dillad.





Beth sydd angen ar Beti Bwt i olchi ei dillad? Mae hi angen...



Twba doli




Doli




Mangl



Twba golchi


Sebon!
Bwrdd sgwrio



Mae gan Beti Bwt bopeth sydd angen arni. Nawr gall Beti fynd ati i olchi'r dillad. Ond does dim dwr yn y ty!



Mae Beti'n mynd i nôl bwcedi a iau.




Mae'n cerdded i lawr i'r afon ddeg gwaith er mwyn cael digon o ddwr.





Mae Beti'n cynhesu peth o'r dwr ar y tân. Mae hi'n rhoi gweddill y dwr oer yn y twba doli.

Nawr mae Beti'n rhoi trefn ar y dillad. Mae ganddi lwyth o ddillad i'w golchi heddiw. Beth sydd ar waelod y pentwr? BLWMARS MAM-GU!!





Mae Beti'n rhoi blwmars mam-gu ar y bwrdd sgwrio ac yn rhoi sebon drostyn nhw i gyd.




Mae hi'n sgwrio ac yn sgwrio i gael graen ar y golch.

Mae'r twba doli yn llawn o ddwr oer. Nawr mae Beti'n rhoi blwmars mam-gu i'w rinsio yn y twba doli. Mae'r dwr yn las!!






Rwy'n rhoi tipyn bach o bliw glas yn y dwr bob tro. Powdr glas i wneud y dillad yn wyn fel yr eira!



Mae'r doli yn mynd i fyny ac i lawr, ac yn troi a throi, yn union fel peiriant.





Yn union fel peiriant golchi. Does gan Beti ddim peiriant golchi. Does ganddi ddim trydan yn y ty!




Mae Beti'n rhoi'r blwmars yn y mangl i wasgu'r dwr allan. Mae hi'n troi dolen y mangl.




Ond ble mae'r badell i ddal y dwr, Beti? O diar, dyna lanast! Rhagor o waith i Beti Bwt!

AMGUEDDFA CYMRU

Darganfyddwch fwy yn...
[amgueddfa.cymru/dysgu]

Discover more at...
[museum.wales/learn]

## Mwy o wybodaeth | Amser Golchi

